

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif/Number: 11/2015



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwaith Swyddogion Cymorth Cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru

Crynodeb Gweithredol

Gwaith Swyddogion Cymorth Cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru

Crynodeb Gweithredol

Trudy Lowe, Helen Innes, Martin Innes, Daniel Grinnell

Sefydliad y Prifysgolion ar Wyddorau'r Heddlu
Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd
1-3 Stryd yr Amgueddfa, Prifysgol Caerdydd

E-bost: lowet@cardiff.ac.uk

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rheini a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid, o anghenraid, safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Dr Mike Harmer

Tîm Dadansoddi Llywodraeth Lleol a Chymunedau

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

E-bost: michael.harmer@cymru.gsi.gov.uk



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, Chwefror 26 2015

ISBN 978-1-4734-2868-3

© Hawlfraint y Goron, 2015

Cynnwys

Rhestr ffigurau	2
1 Rhagarweiniad	3
2 Cefndir i'r Rhaglen.....	3
3 Nodau'r Rhaglen	3
4 Nodau'r Ymchwil	4
5 Canfyddiadau: Ar y Lefel Genedlaethol.....	5
5.1 Rhoi'r rhaglen ar waith	5
5.2 Effaith.....	6
6 Canfyddiadau: Ar Lefel Ardal Heddlu	7
6.1 Rhoi'r rhaglen ar waith	7
6.2 Effaith.....	8
7 Canfyddiadau: Ar Lefel Ardal Astudiaeth Achos.....	9
7.1 Ynys Môn – Heddlu Gogledd Cymru.....	9
7.2 Dinbych-y-pysgod – Heddlu Dyfed Powys	10
7.3 Canol Casnewydd – Heddlu Gwent	10
7.4 Glynebwy – Heddlu Gwent	10
7.5 Aberdâr – Heddlu De Cymru.....	11
7.6 Grangetown – Heddlu De Cymru	12
8 Dehongli'r Data.....	12
8.1 Y Pedair P.....	13
8.2 Act Falansio'r Swyddogion Cymorth Cymunedol	14
8.3 Effaith a Newid.....	15
9 Casgliadau ac Argymhellion.....	19
9.1 Casgliadau.....	20
9.2 Argymhellion	21

Rhestr ffigurau

Ffigur 8.1 Act Falansio'r Swyddogion Cymorth Cymunedol	15
Ffigur 8.2 Crynodeb o Effaith a Newid	17

1 Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau ymchwil a gomisiynwyd i asesu lleoli a gwaith 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol (CSO) ychwanegol a ariennir gan Lywodraeth Cymru er 2012. Mae'r dadansoddiad yn rhoi sylw i: (1) y polisi a luniwyd a'i fwriad; (2) sut mae'r polisi wedi cael ei roi ar waith yn strategol ac yn weithredol a (3) yr effeithiau y gellir eu priodoli iddo o ran canfyddiadau a phrofiadau'r cyhoedd o droseddu, anhrefn a diogelwch.

2 Cefndir i'r Rhaglen

Datblygwyd polisi Llywodraeth Cymru i ariannu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol yn erbyn cefndir o gyni yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr. Mae goblygiadau i hyn o ran cyflunio a darparu plismona. Yn y tymor hirach, mae tair tuedd yn bwysig wrth ddeall cyd-destun datblygu a darparu'r fenter hon:

- **Gweithlu sy'n Crebachu**
Yn gyffredinol, mae niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yn Lloegr yn gostwng er 2010. Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru'n cynyddu niferoedd y Swyddogion hyn yng Nghymru ers mis Mawrth 2012 ymlaen. Mae pob heddlu wedi gweld gostyngiadau yn niferoedd ei swyddogion heddlu.
- **Gweithlu sy'n Newid**
Ni fu dosbarthiad gostyngiadau yn niferoedd staff heddlu'n gyson ar draws neu oddi mewn i sefydliadau heddlu. Mae ariannu Llywodraeth Cymru wedi symud proffil cyhoeddus staff heddlu yng Nghymru'n fwy tuag at Swyddogion Cymorth Cymunedol.
- **Canfyddiadau Cyhoeddus ynglŷn ag Amlygrwydd yr Heddlu**
Roedd amlygrwydd heddlu lleol o ddydd i ddydd yng Nghymru yn 2012/13 yn fwy na'u hamlygrwydd yn Lloegr lle mae wedi syrthio 4 y cant rhwng 2011/12 a 2012/13. Yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf, mae amlygrwydd heddlu lleol wedi bod yn cynyddu yn yr ardaloedd sydd â mwy o amddifadedd ac yn gostwng yn yr ardaloedd lle ceir yr amddifadedd lleiaf.

3 Nodau'r Rhaglen

Nod ariannu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol gan Lywodraeth Cymru oedd darparu adnodd ychwanegol i chwarae rôl allweddol nid yn unig wrth wneud ein cymunedau'n fwy diogel, ond wrth wneud iddynt deimlo'n fwy

diogel (Llywodraeth Cymru, 2011 tt 25-26). O'r cychwyn, rhoddodd y polisi bwyslais ar amddifadedd cymdeithasol, gan ddatgan y bwriad mai canolbwyntio adnoddau ychwanegol ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a ddylai gael ei ffafrio. Serch hynny, arhosodd y cyfrifoldeb am recriwtio, cyflogi, hyfforddi a lleoli'r swyddogion newydd gyda'r heddluoedd eu hunain i fodloni ymrwymiad i 'annibyniaeth weithredol drosfwaol y gwasanaeth heddlu'. Un o amodau craidd y rhaglen oedd bod y Swyddogion Cymorth Cymunedol newydd a gyflogir drwyddi yn *ychwanegol* at lefelau plismona arfaethedig yr heddluoedd.

Yn Nhelerau ac Amodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y grant a roddwyd i'r heddluoedd cyfranogol, nodwyd pwrpas cymeradwy'r Swyddogion Cymorth Cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Roeddent i gyfrannu at blismona cymdogaethau, yn bennaf drwy batrolau amlwg a bod yn hygyrch i gymunedau a phartneriaid lleol a chydweithio â nhw i wella ansawdd bywyd y rheini y mae troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio arnynt.

Manylwyd ar ganlyniadau mwy penodol y buddsoddiad:

- Bod yn amlwg ac yn hygyrch i gymunedau
- Darparu sicrwydd i gymunedau
- Ymgysylltu â phartneriaid a sefydliadau cymunedol i fynd ati i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgarwch troseddol cysylltiedig
- Cyfrannu at leihau troseddu drwy ddatrys problemau ar lefel leol.¹

Yn ogystal, ceir cyfeiriad at wneud cymunedau'n gryfach ac yn fwy diogel gan gyflwyno i'r rhaglen uchelgais i ddylanwadu ar lefelau cydlyniant cymunedol. Bu'r dibenion hyn yn sail i agweddau ar yr ymchwil a wnaed.

4 Nodau'r Ymchwil

Cafodd Sefydliad y Prifysgolion ar Wyddorau'r Heddlu ym Mhrifysgol Caerdydd ei gomisiynu i asesu'r rhaglen yn annibynnol. Gan ddefnyddio dulliau ymchwil amryfal, mae'r ymchwil yn ymdrin â thri mater allweddol:

- **Y polisi a'i fwriad:** adnabod sut bu i'r dewisiadau a'r penderfyniadau a wnaed wrth lunio'r polisi siapio a fframio sut cafodd y Swyddogion Cymorth Cymunedol Ychwanegol eu defnyddio, y gwasanaethau y buont yn eu

¹ Atodiad A: Telerau ac Amodau sy'n berthynasol i Ddyfarniad Grant Swyddogion Cymorth Cymunedol, Llywodraeth Cymru, Ionawr 2012.

cyflawni i gymunedau ac unrhyw wahaniaethau i lefelau diogelwch cymunedol a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad.

- **Rhoi'r rhaglen ar waith:** sut cafodd adnodd Swyddogion Cymorth Cymunedol Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio gan bob heddlu o ran strategaeth a phatrymau lleoli;
- **Yr effaith:** unrhyw newid o ganlyniad i'r buddsoddiad ychwanegol hwn o ran amrywiaeth o ddangosyddion canlyniadau diogelwch cymunedol. Mae'r ymchwil yn cynnwys asesu newid mewn rhai o'r dangosyddion allweddol hyn o ganlyniad i ddylanwadau y tu allan i unrhyw wasanaethau a ddarparwyd gan y 500 o Swyddogion. Mae hyn yn cydnabod y berthynas gymhleth sydd rhwng achos ac effaith mewn ymyriadau cymdeithasol eang o'r fath.

Aseswyd y polisi, ei weithredu a'i effeithiau ar dair lefel: yn genedlaethol; ar lefel heddlu ac oddi mewn i ardaloedd astudiaethau achos dethol.

5 Canfyddiadau: Ar y Lefel Genedlaethol

5.1 Rhoi'r rhaglen ar waith

Er i Lywodraeth Cymru amlygu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf fel y rhai lle dymunai'n arbennig weld cynnydd o dan y polisi, caniatwyd Prif Swyddogion gan egwyddor drosfwaol annibyniaeth weithredol i ddefnyddio'r adnodd newydd ym mha ffordd bynnag oedd fwyaf priodol yn eu barn nhw, ar yr amod iddynt roi ystyriaeth i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a nod Cymunedau Mwy Diogel i Bawb². O ganlyniad, cafodd darpariaeth gyhoeddus y polisi ei siapio'n uniongyrchol gan strategaethau a modelau lleoli a ddefnyddiwyd gan y gwahanol heddluoedd i integreiddio'r Swyddogion Cymorth Cymunedol newydd i bob heddlu.

Un o brif amodau'r grant oedd bod y swyddi newydd yn aros yn ychwanegol at niferoedd presennol pob heddlu a'i ostyngiadau staffio rhagolygol. Sefydlodd Llywodraeth Cymru broses fonitro drwyadl er mwyn sicrhau cydymffurfio â'r 'egwyddor ychwanegedd' hon y cytunwyd arni.

Dosbarthwyd y 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol newydd ar draws y pum heddlu fel a ganlyn: 206 i Heddlu De Cymru (HDC), 101 i Heddlu Gogledd Cymru (HGC); 101 i Heddlu Gwent (HG); 74 i Heddlu Dyfed Powys (HDP); a 18 i Heddlu Trafnidiaeth Prydain yng Nghymru.

² Atodiad A: Telerau ac Amodau sy'n berthnasol i Ddyfarniad Grant Swyddogion Cymorth Cymunedol, Llywodraeth Cymru, Ionawr 2012

Lleolwyd y Swyddogion Cymorth Cymunedol cyntaf gan Heddlu Gwent a Dyfed Powys ym mis Ionawr 2012, a lleolwyd y rhai olaf i'w derbyn gan Heddlu De Cymru ym mis Hydref 2013.

5.2 Effaith

Nid ymyriad plismona newydd yw Swyddogion Cymorth Cymunedol. I gael rhyw syniad o ba wahaniaethau a allai fod yn deillio o'r cynnydd mewn adnoddau Swyddogion Cymorth Cymunedol yng Nghymru, mae cymariaethau â phatrymau a thueddiadau yn Lloegr wedi cael eu gwneud. Yn Lloegr, ni fu buddsoddiad ychwanegol yn niferoedd y Swyddogion Cymorth Cymunedol dros yr un cyfnod. Mae'r dadansoddiad cymharol hwn yn dangos:

- Mae'r duedd ostyngol hirdymor mewn troseddu yng Nghymru yn dilyn trywydd Lloegr. Ni cheir tystiolaeth bod Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol dros y ddwy flynedd diwethaf wedi cael effaith ar y gyfradd droseddu yng Nghymru.
- Mae cyfradd y gostyngiad mewn troseddu'n uwch na chyfradd y gostyngiadau yng ngweithlu'r swyddogion heddlu, sy'n awgrymu nad oes galw amlwg ar Swyddogion Cymorth Cymunedol i ymgymryd â gwaith heddlu mewn ymateb i droseddu. Nid oes fawr o reswm i ddisgwyl y byddai mwy o Swyddogion Cymorth Cymunedol yn newid nifer y troseddau a gofnodir yng Nghymru.
- Awgryma Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr mai'r cyhoedd sy'n byw yn yr ardaloedd lle ceir mwy o amddifadedd yng Nghymru yw'r rhai mwyaf tebygol o sôn am bresenoldeb heddlu sylweddol. Mae'r tueddiadau cenedlaethol hyn yn darparu tystiolaeth i gefnogi bwriad polisi Llywodraeth Cymru i lywio'r adnodd ychwanegol tuag at ardaloedd o amddifadedd.
- Mae Arolwg Omnibws Beaufort yn dangos dros gyfnod buddsoddiad Llywodraeth Cymru fod cyneffindra'r cyhoedd â Swyddogion Cymorth Cymunedol yng Nghymru'n uchel iawn ond heb newid.
- Dywedodd canran sylweddol o'r rheini oedd wedi gweld Swyddog Cymorth Cymunedol nad oedd patrolio amlwg yn gwneud 'unrhyw wahaniaeth' i'w diogelwch. Mae'r ganran hon wedi disgyn dros y flwyddyn diwethaf a chafwyd cynnydd cyfatebol yn y ganran sy'n teimlo'n 'fwy diogel o lawer'. Mae data eraill yn awgrymu bod yn rhaid teilwra 'dogn' yr amlygrwydd i amodau lleol, os yw am gynnig sicrwydd.

6 Canfyddiadau: Ar Lefel Ardal Heddlu

6.1 Rhoi'r rhaglen ar waith

Cynhaliodd pob un o heddluoedd Cymru ymgyrchoedd recriwtio mewnol ac allanol. Roedd uchelgais gan lawer o'r ymgeiswyr i ymuno â'r gwasanaeth heddlu yn y pen draw fel swyddogion gwarantedig. Ystyriwyd hefyd nifer y ceisiadau am adleoli gan staff sifilaidd yr heddlu oedd wedi colli eu swyddi.

- Roedd mwyafrif y Swyddogion Cymorth Cymunedol a ymunodd yn sgil ariannu Llywodraeth Cymru'n fwy tebygol o fod o dan 25 mlwydd oed ac yn wrywaidd na'r rheini oedd eisoes yn y swydd.
- Lleolodd Heddlu Dyfed Powys yr adnoddau newydd yn gyflym gan eu cyfuno â'r adnoddau presennol, gyda'r hyblygrwydd o fedru adleoli pe bai angen wrth i'w model Rheoli Cymdogaethau newydd gael ei gyflwyno.
- Defnyddiodd y brif strategaeth leoli ar gyfer Gogledd a De Cymru fodolu presennol y lluoedd, sef galw lleol, amddifadedd a natur wledig, i gyfrifo'r dyraniadau. Yn y ddau heddlu, ymgynghorwyd â thimau rheoli lleol am sut i ddefnyddio'r swyddogion oedd newydd eu dyrannu.
- Ceisiodd Gwent gyflogi swyddogion rhan-amser i weithio amserau galw brig dros y penwythnos er mwyn sicrhau'r amlygrwydd mwyaf i'r heddlu. Drwy gynnig rolau oriau cyfyngedig, roeddent yn disgwyl recriwtio amrywiaeth o ymgeiswyr yr oedd gweithio rhan-amser yn atyniadol iddynt.
- I Heddlu Trafnidiaeth Prydain yng Nghymru, cadw'r swyddogion newydd wedi'u lleoli â'i gilydd oedd y strategaeth glir er mwyn dangos tystiolaeth o'u heffaith yn well ac felly cafodd swyddogion eu crynhoi'n dri Thîm Plismona Bro wedi'u lleoli mewn gorsafoedd allweddol yng Nghaerdydd, Pontypridd a Bangor.
- Bu lleoli Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol yn cyd-ddigwydd â newidiadau trefniadol ehangach wrth i wasanaethau gael eu hailwampio mewn cyfnod o gyni. Mae'r cymhlethdod hwn, ynghyd â'r gwahanol ddulliau strategol, yn golygu ei bod yn anodd cymharu Heddluoedd Cymru'n uniongyrchol ac yn lleihau'r tebygolrwydd y ceid – neu y disgwyliid – yr un effeithiau ym mhob un.

6.2 Effaith

- Yn achos HG, HDC a HGC, cafwyd ychydig gynnydd yn y troseddau a gofnodwyd dros y flwyddyn diwethaf, er, ym mhob un o'r heddluoedd, y duedd waelodol gyffredin yw bod troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (YG) yn disgyn, tuedd sy'n cynddyddio buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn Swyddogion Cymorth Cymunedol. Mae'r tueddiadau hyn yn adlewyrchu'r darlun cenedlaethol ar draws Cymru a chan fod tueddiadau tebyg i'w gweld yn Lloegr lle na chafwyd unrhyw adnoddau heddlu ychwanegol, ni ellir eu priodoli'n uniongyrchol i Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol yng Nghymru.
- Ac eithrio Gwent, mae pob heddlu ar y tir wedi gweld cryn ostyngiad yn yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodir er 2011-12 ac mae hyn wedi bod yn gyson dros amser.
- Yn achos Heddlu Trafnidiaeth Prydain, cafwyd rhai gostyngiadau o ran troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â gorsafoddd neu deithiau dros y ddwy flynedd diwethaf.
- Ceir tystiolaeth o gynnydd yng nghanran y digwyddiadau a gofnodir, megis ymddygiad gwrthgymdeithasol lle'r oedd Swyddog Cymorth Cymunedol yn bresennol. Nid yw'r newid hwn yn amlwg ar gyfer troseddau a gofnodir.
- Mae data arolygon yn dangos bod y cyhoedd wedi dod yn fwy cyfarwydd â Swyddogion Cymorth Cymunedol mewn 2 o'r 4 heddlu ar y tir yng Nghymru. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod cynefindra â'r Swyddogion a'u hamlygrwydd wedi newid dros y cyfnod lleoli, ond mae cyfeiriad a maint y newid yn amrywio ar draws y pedwar heddlu yng Nghymru.
- Yn gynyddol, mae'r cyhoedd yn edrych ar reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol fel rhan annatod o rôl y Swyddogion Cymorth Cymunedol, ochr yn ochr â chodi Hysbysiadau Cosb Benodedig ac atafaelu alcohol a thybaco. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod disgwyliadau'r cyhoedd o ran rôl y Swyddogion Cymorth Cymunedol yn newid mewn ffordd sy'n unol yn fras â'r hyn y mae'r Swyddogion yn ei wneud.
- Nid oedd unrhyw newid yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o bolisi Llywodraeth Cymru i ariannu Swyddogion Cymorth Cymunedol a oedd

yn aros oddeutu 1 yn unig ym mhob 10 o'r cyhoedd yng Nghymru yn ardal pob heddlu.

- Mae data'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol yn awgrymu bod yr heddlu'n fwy amlwg i'r cyhoedd sy'n defnyddio rheilffyrdd yng Nghymru a bod canfyddiadau ynglŷn â chamau brys, delio â throseddu a gwybod sut i'w riportio'n fwy ffafriol i Drenau Arriva Cymru na chwmnïau eraill yn y DU. Fodd bynnag, mae'r canfyddiad o ddiogelwch personol ar drenau wedi dowcio ychydig yn ystod y flwyddyn diwethaf.

7 Canfyddiadau: Ar Lefel Ardal Astudiaeth Achos

Ar lefel leol, roedd Swyddogion Cymorth Cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi'u hintegreiddio'n llwyr i'r Timau Plismona Bro presennol. Roedd hyn yn golygu bod gwahaniaethu rhwng eu rolau a'u gweithgareddau'n amhosibl o fewn ardaloedd astudiaethau achos. Mae'r dadansoddiadau'n edrych ar rôl y Swyddogion Cymorth Cymunedol yn gyffredinol heb gyfeirio at ffynhonnell eu cyllid. Yr eithriad yw'r dadansoddiadau ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol Llywodraeth Cymru rhan-amser a gyflogwyd gan Heddlu Gwent (adrannau 7.3 a 7.4). Gyda'i gilydd, mae'r astudiaethau achos yn dangos yr amrywiadau sylweddol rhwng ardaloedd o ran sut cafodd y Swyddogion eu defnyddio a'r tasgau a roddwyd iddynt³.

7.1 Ynys Môn – Heddlu Gogledd Cymru

Mae'r Swyddogion Cymorth Cymunedol yn canolbwyntio ar weithgareddau cefnogi ac ymgysylltu â'r gymuned gan gynnwys swydd cefn gwlad arbennig; nifer o gynlluniau gwarchod yr heddlu; ymgysylltu ag ysgolion a phobl ifainc; Cyfarfodydd Stryd (*Street Meets*) a Chyfarfodydd Cyngor Cymuned. Hefyd, mae gan y Swyddogion gyfrifoldeb cynyddol am dasgau megis adolygu TCC, ymholiadau o dŷ i dŷ a chreu cofnodion o ddigwyddiadau troseddol/ymddygiad gwrthgymdeithasol. Arweiniodd ad-drefnu ar lefel yr heddlu a'r golled a ddaeth yn ei sgil o ran Rheolwyr Rhawd Gymunedol gwarantedig at rywfaint o ddiffyg cyfeiriad i Swyddogion Cymorth Cymunedol, yr unig arbenigwyr plismona bro ar yr ynys bellach. Bu ychydig dwf yn nifer y digwyddiadau a'r troseddau sydd wedi'u cofnodi o'i gymharu â mis Ionawr 2012 a chryn gynnydd mewn achosion lle mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yn mynd at ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol ers mis

³ Yn is-adran o heddlu'r DU sydd â chyfrifoldeb arbenigol am rwydwaith y rheilffyrdd, mae Heddlu Trafnidiaeth Prydain yng Nghymru yn gweithredu'n wahanol i'r pedwar heddlu ar y tir yng Nghymru mewn sawl ffordd. Felly, ystyriwyd bod y dadansoddiad ar lefel yr heddlu'n briodol i asesu gweithredu ac effaith 'leol' y nifer bach o Swyddogion ychwanegol a ddyrannwyd i'r heddlu a'u lleoli ar draws ardal ddaearyddol fawr. O ganlyniad, ni ddeholwyd unrhyw ardal astudiaeth achos ychwanegol i'r heddlu hwn ac mae canfyddiadau ar y lefel hon yn berthnasol i'r pedwar heddlu ar y tir yng Nghymru'n unig.

Hydref 2013. Yn Ynys Môn, bu niferoedd y cyhoedd a gytunai fod 'yr heddlu'n delio â'r pethau sydd o bwys i bobl yn y gymuned hon' yn cynyddu 5 y cant o 2010-2011 i 55 y cant yn 2014.

7.2 Dinbych-y-pysgod – Heddlu Dyfed Powys

Yn Ninbych-y-pysgod, defnyddiwyd y Swyddogion Cymorth Cymunedol newydd i greu 'ymchwydd' yn y presenoldeb plismona gyda phwyslais arbennig ar amrywiaeth o dasgau i gefnogi'r gymuned, gan gynnwys ymgysylltu ag ysgolion a phobl ifainc; pobl sy'n agored i niwed; busnesau lleol; cyfarfodydd cyhoeddus a chymorthfeydd, a gweithgareddau cydlynol mewn digwyddiadau cymunedol. Fel rhan o'r strategaeth ymchwydd hon, canolbwyntiwyd ar batrolio amlwg ar droed yn y dre lle ceir poblogaeth ymwelwyr fawr dros dro. Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol ar draws ardal yr heddlu wedi mynd at fwy o ddiwyddiadau didrosedd. Mae'r cyhoedd yn Ninbych-y-pysgod yn gwerthfawrogi'r amlygrwydd, ond mae hyn yn cael ei gymedroli gan y ffaith eu bod yn gwahaniaethu rhwng Swyddogion Cymorth Cymunedol a chwnstabiliaid heddlu. Mae troseddau wedi'u cofnodi wedi syrthio ychydig ond nid oes unrhyw newid cyffredinol yn nifer yr achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae pobl leol yn fwy tebygol o ddyfarnu bod eu heddlu lleol yn 'weddol' yn hytrach nag yn 'dda' neu'n 'rhagorol' yn 2013 o'i chymharu â'r flwyddyn gynt ac maent yn teimlo eu bod yn cael gwybod llai.

7.3 Canol Casnewydd – Heddlu Gwent

Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol Llywodraeth Cymru rhan-amser yn cael eu defnyddio mewn patrôl sicrwydd amlwg yng nghanol y ddinas, gan ddelio â phoblogaeth dros dro, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau'r economi gyda'r nos. Ceir hefyd gryn dipyn o weithgarwch yn ymgysylltu â busnesau, ond cyfleoedd cyfyngedig yn unig i ddatblygu ymgysylltiad â thrigolion lleol yn rhagweithiol. Mynegwyd peth rhwystredigaeth gan y Swyddogion Cymorth Cymunedol ynglŷn â'r symudiad tuag at swyddogaeth ymatebol i gefnogi'r heddlu pan nad oes ganddynt ond pwerau cyfyngedig. Bu cynnydd yn nifer yr achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi'u cofnodi o'u cymharu â mis Ionawr 2012 yn yr ardal hon. Mae hyn yn cyferbynnu â gostyngiad yn nifer y troseddau wedi'u cofnodi dros yr un cyfnod ar gyfer troseddau dethol. Yn Ardal Awdurdod Unedol Casnewydd, roedd 52 y cant yn gweld Swyddogion Cymorth Cymunedol ar batrôl yn rheolaidd yn 2012 a 2013 –canran uwch o lawer nag ardal Gwent yn ei chrynswth.

7.4 Glynebwy – Heddlu Gwent

Yng Nglynebwy, roedd swyddogaethau cymorth cymunedol a chefnogi'r heddlu'n dod i'r blaen mewn gwahanol rannau o'r ardal. Yn y cymdogaethau

Ile'r oedd llai o amddifadedd, roedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yn cyflawni mwy o weithgareddau i gefnogi'r gymuned, lle mewn rhai ardaloedd eraill - lle'n draddodiadol nad yw'r berthynas â'r heddlu wedi bod yn dda - maent yn ymgymryd â thasgau sydd braidd yn wahanol. Ar y dechrau, y ffocws a ddewiswyd i'r Swyddogion Cymorth Cymunedol rhan-amser oedd bod yn griw i gerbyd sy'n ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws ardal ddaearyddol fawr ar adegau brig. Mae'r strategaeth hon bellach yn cael ei thynnu'n ôl oherwydd bod y Swyddogion Cymorth Cymunedol eisiau mwy o gyfle i ddatblygu eu gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r swyddogion llawn-amser wedi rhoi hwb i weithgarwch cefnogi ac ymgysylltu â'r gymuned gan gynnwys gyda phobl ifainc mewn ysgolion a cholegau lleol; digwyddiadau a gynhelir ar y cyd â phartneriaid yn y trydydd sector; cymorthfeydd a chyfarfodydd cyhoeddus, a chlybiau cymunedol rheolaidd. Mewn grwpiau ffocws, awgrymodd swyddogion lleol fod y cynnydd yn eu niferoedd yn cael ei wrthbwysu gan y cynnydd mewn gweinyddiaeth swyddfa. Bu cynnydd yn nifer yr achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd ac, i raddau llai, achosion troseddol, o'i gymharu â mis Ionawr 2012. Bu cynnydd yng nghanran y niferoedd yn dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal hon sy'n gwybod sut i gysylltu â swyddogion lleol (+9%), ond 17% yn unig o'r cyhoedd a welai Swyddogion Cymorth Cymunedol ar batrôl yn rheolaidd - canran is o lawer na Gwent yn ei chrynswth.

7.5 Aberdâr – Heddlu De Cymru

Dyrannwyd y swyddogion newydd i wardiau ond gellid cael eu defnyddio'n hyblyg dros ardal ddaearyddol fawr yng Nghwm Cynon. Roedd hyn yn cyfyngu cyfleoedd i bobl ddod i'w nabor o fewn cymunedau. Bu pwyslais ar dasgau heddlu megis galwadau ymateb; dilyniant o ran dioddefwyr a gweithredu cyflym wrth ymchwilio i droseddau. Y canlyniad oedd cryn rwystredigaeth ymhlith y Swyddogion Cymorth Cymunedol fod gweithgarwch i ymgysylltu'n rhagweithiol â'r gymuned yn cael ei esgeuluso. Roedd prosiectau penodol yn hwyluso rhywfaint o ymgysylltu cymunedol megis 'Prosiect 446' i ddeall canfyddiadau o ddiogelwch ymhlith cymunedau yn Aberaman a Dwyrain Aberdâr ac 'Ymgyrch Canfyddiad'.

Cafwyd gostyngiad yn yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd o'i gymharu â mis Ionawr 2012, ond ni fu newid yn y troseddau a gofnodwyd. Mae peth cynnydd yn nifer y Swyddogion Cymorth Cymunedol yn mynd at ddiogwyddiadau troseddol a didrosedd yn Aberdâr wedi'i nodi ers mis Ionawr 2012. Bu gostyngiad dros ei hanner yng nghanran y trigolion a deimlai fod mwy o heddlu yn eu hardal rhwng 2012 a 2013. Roedd gostyngiad hefyd yn amlwg o ran hyder lleol yn yr heddlu, gyda'r ganran a gytunai fod 'heddlu lleol yn delio â'r hyn sydd o bwys i bobl yn y gymuned' yn syrthio dros yr un cyfnod.

7.6 Grangetown – Heddlu De Cymru

Rhoddir nifer o dasgau meithrin perthynas ac ymgysylltu â'r gymuned i Swyddogion Cymorth Cymunedol yn Grangetown ar draws ardal ddaearyddol gymharol fach, gan gynnwys cyfarfodydd cyhoeddus rheolaidd; cymorthfeydd galw heibio a chyfrifoldeb am reoli gweithgarwch Trydar y tîm. Er gwaethaf cynnydd tebyg i'r hyn a brofir gan eu cymheiriaid yn Aberdâr mewn tasgau ymatebol sy'n ymwneud â'r heddlu, maent yn gweld bod llawer o'r rhain yn canolbwyntio ar y gymuned ac yn rhan o'u rôl graidd wrth ddatblygu cysylltiadau cymunedol. Mewn ardal amlddiwylliannol, gwelir ymgysylltu â grwpiau sydd yn draddodiadol yn anodd eu cyrraedd fel blaenoriaeth. Ceir rôl arbenigol gysylltiedig ag agenda PREVENT sy'n cyflwyno swyddogaeth casglu gwybodaeth gymunedol allweddol. Wrth gyfwrdd fel rhan o'r ymchwiliad hon, mynegwyd peth rhwystredigaeth ynglŷn â'r diffyg heddlu wrth gefn mewn ardal lle ceir llawer o droseddau.

Ni chafwyd unrhyw newid yn y troseddau a gofnodir nag ymddygiad gwrthgymdeithasol o'u cymharu â mis Ionawr 2012. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r cyhoedd wedi'u pegynnu'n fwy dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf. Mae canran y trigolion a deimlai fod mwy o heddlu yn eu hardal wedi cynyddu ychydig, ond felly hefyd y ganran sy'n canfod bod llai o heddlu'n bresennol. Mae tystiolaeth o ymchwiliad ddiweddar yn awgrymu bod y berthynas rhwng Swyddogion Cymorth Cymunedol a thrigolion Mwslim ifainc o dan straen braidd a bod y sefyllfa yn Grangetown yn gymhleth, gyda digwyddiadau sydd â phroffil uchel yn ddiweddar yn cael effaith ar ganfyddiadau cyffredinol o ddiogelwch a phlisma yn y gymdogaeth.

8 Dehongli'r Data

Mae'r dadansoddiad yn adnabod ystod o ffactorau sydd wedi ymgysylltu i olygu mai ymyriad cymhleth yw hwn o ran medru pennu patrymau achos ac effaith rhwng mewnbyn y Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol a chanlyniadau cyhoeddus mesuradwy. Maent yn cynnwys:

- Nid capasiti plisma 'newydd' oedd hwn, ond yn hytrach hwb i'r capasiti a oedd eisoes ar gael.
- Y rhaglen yn cael ei rhoi ar waith yn ystod cyfnod o gynni difrifol yn y sector cyhoeddus, lle mae gostyngiadau yng nghyllid llywodraeth ganol i'r heddlu wedi gweld nifer y swyddogion heddlu yn disgyn ar draws pob heddlu yng Nghymru.

- Mae'r hinsawdd economaidd ehangach hefyd wedi gweld pob heddlu'n ymgymryd ag ailstrwythuro sefydliadol sylweddol yn ystod y cyfnod pan oedd y Swyddogion Cymorth Cymunedol newydd yn cael eu cyflwyno.
- Cyflwynodd y pum heddlu eu Swyddogion Cymorth Cymunedol newydd ar wahanol adegau ac ar wahanol gyflymderau. Golyga hyn ei bod yn anodd adnabod unrhyw batrymau allweddol yn y prif ddangosyddion y gallai cyflwyno'r Swyddogion fod wedi'u hachosi.
- Wrth edrych ar y prif dueddiadau o ran lefelau troseddu, anhrefn a hyder, gellir gweld bod llawer o'r rhain yn cynddyddio dyfodiad Swyddogion Cymorth Cymunedol Llywodraeth Cymru.
- Mae egwyddor annibyniaeth weithredol yr heddlu wedi golygu y bu gwahaniaethau o ran sut mae'r polisi wedi cael ei roi ar waith.

8.1 Y Pedair P

Mae pedwar prif ffactor wedi'u hadnabod sy'n helpu i esbonio sut mae'r rhaglen wedi cael ei rhoi ar waith ar draws Cymru.

Polisi: roedd dau ymrwymiad y polisi i ychwanegedd a chadw annibyniaeth weithredol yr heddlu'n caniatáu i amrywiaeth o wahanol fodolau strategol a gweithredol i rôl y Swyddogion Cymorth Cymunedol ddod i'r fei. Y canlyniad oedd bod rhoi'r rhaglen ar waith yn lleol yn annhebygol o gyflawni'r holl ganlyniadau a ddymunwyd ym mhob man.

Pobl: Mae gosod rôl y Swyddogion Cymorth Cymunedol fel cam i'r gwasanaeth heddlu wedi golygu bod uchelgais gan lawer o'r unigolion a recriwtiwyd i'r swyddi newydd i ddod yn swyddogion heddlu. Mae hyn wedi corddi'r dyfroedd o ran personél gyda goblygiadau negyddol ar gyfer meithrin perthynas â chymunedau. Ceir peth tystiolaeth i awgrymu mai'r Swyddogion Cymorth Cymunedol mwyaf galwedigaethol sydd fwyaf tebygol o gofleidio'r elfennau ymgysylltu mwyaf rhagweithiol o'u rôl.

Parthau: Mae natur y lleoliadau lle mae'r Swyddogion newydd wedi'u defnyddio'n bwysig o ran a yw eu hymyriadau'n llwyddiannus ai peidio. Mae beth yn union mae'r cyhoedd eisiau gan eu heddlu lleol yn gymhleth gan ddibynnu ar y sefyllfa. Mae'n amlwg ei bod a wnelo â chael rhywfaint o gydbwysedd rhwng amlygrwydd, hygyrchedd a chynefindra. Mae'r union gydbwysedd rhwng y rhain yn adlewyrchu lefelau troseddu a chydlyniant cymdeithasol yn lleol.

Problemau: Er nad yw disgrifiad rôl swyddogol Swyddogion Cymorth Cymunedol yn amrywio fawr ddim rhwng heddluoedd, mae'r problemau y maent yn delio â nhw yn y man a'r lle yn golygu bod realiti eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gallu bod yn wahanol iawn. Ar draws pob heddlu, mae troseddu ar lefel isel a'r tasgau ymchwiliol cysylltiedig yn dod yn rhan fwyfwy pwysig o waith y Swyddogion Cymorth Cymunedol.


8.2 Act Falansio'r Swyddogion Cymorth Cymunedol

Mae'r rhyngweithio rhwng y pedair P uchod yn golygu bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yn delio â chydbwysedd anodd rhwng ymyriadau rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar y gymuned a thasgau 'heddlu' ymatebol. Mae Ffigur 8.1 yn dangos yr act falansio hon.

O fewn y pedwar Heddlu ar y tir yng Nghymru, gellir gweld dau wahanol fodel gweithredu 'delfrydol' i Swyddogion Cymorth Cymunedol:

- Mae 'Cymorth Cymunedol' yn canolbwyntio ar weithgareddau ymgysylltu a gwneud y mathau o dasgau sy'n helpu i feithrin a chefnogi cydlyniant cymdeithasol.
- Mae 'Cymorth i'r Heddlu' yn ymgymryd â thasgau a gyflawnwyd ynghynt gan gwnstablaid heddlu.

Ni ddefnyddiodd yr un o'r chwe safle astudiaeth achos y modelau hyn ar ffurf 'bur'. Fodd bynnag, maent yn darparu dyfais ddefnyddiol at ddeall sut, mewn perthynas â'i gilydd, y tueddai rhai o'r safleoedd hyn eu pwysoli tuag at y naill fodel neu'r llall. Defnyddiwyd penderfyniadau o'r fath am lunio a gweithredu polisi lleol at strwythuro pa ganlyniadau penodol oedd yn cael eu ceisio a'u cyflawni.



Ffigur 8.1 Act Falansio'r Swyddogion Cymorth Cymunedol

8.3 Effaith a Newid

Mae'r ymchwili yn nodi gwahaniaeth allweddol rhwng 'newid' ac 'effaith'. Cyfyngir y term olaf i'r symudiadau hynny mewn dangosyddion allweddol y gellir eu priodoli'n rhesymol i weithgareddau'r Swyddogion Cymorth Cymunedol. Mae'r cysyniad o newid yn cyfeirio at newidiadau a fyddai fwy na thebyg wedi digwydd beth bynnag. Mae'n bwysig ymgorffori hyn yn y dadansoddiad oherwydd bod tystiolaeth dda i awgrymu bod patrymau a thueddiadau yn nifer yr achosion a dosbarthiad troseddu yn ogystal ag mewn anrhefn a diogelwch yng Nghymru a Lloegr yn ailymstrwythuro.

Mae Tabl 8.2 yn crynhoi'r prif effeithiau a newidiadau sydd i'w gweld yn y dystiolaeth empirig a gasglwyd fel rhan o'r ymchwili hon. Mae'r colofnau'n cynrychioli'r lefelau lle chwiliwyd am dystiolaeth o newid ac effaith: cenedlaethol; ardal heddlu ac mewn chwe safle astudiaeth achos.

Mae'r rhesi yn y tabl yn nodi nifer o ddangosyddion allweddol lle y rhagwelid y gallai effeithiau sy'n deillio o ymyrraeth y polisi gael eu cofnodi. Roedd yr effeithiau hyn yn tarddu o dair ffynhonnell: (1) y dibenion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru (2) adolygiad o'r llenyddiaeth ymchwili sydd ar gael (3) modelu ystadegol Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr.

- Mae'r celloedd gwyrdd yn dynodi lle mae tystiolaeth o effaith y rhaglen wedi'i hadnabod;
- Y celloedd coch yw lle cafwyd **newid** negyddol yn y dangosydd hwnnw. Gall hyn fod a wnelo neu heb fod a wnelo ddim oll â'r Swyddogion Cymorth Cymunedol, ond mae'n bwysig ei ddal gan nad yw'r capasiti ychwanegol wedi'i atal.
- Mae nifer o'r celloedd wedi'u lliwio'n felyn. Defnyddir y lliw hwn i ddynodi lle ceir rhyw fath o effaith gymhleth, er enghraifft, lle mai effaith sefyllfaol neu ar gymdogaeth sydd dan sylw, neu dueddiad nad yw'n llinellol lle mae'r patrwm gwaelodol wedi symud.
- Defnyddir glas lle'r oedd y dangosydd yn sefydlog neu le gwelwyd ychydig newid cadarnhaol ond nad oes tystiolaeth i gasglu bod hyn yn cael ei achosi trwy ymyrraeth y rhaglen.
- Lle nad yw cell yn y tabl wedi'i lliwio, mae hyn yn golygu naill ai nad oedd digon o ddata ar gael neu nad oedd unrhyw batrwm gweladwy.

	Cymru Gyfan	Heddlu De Cymru	Heddlu Gogledd Cymru	Heddlu Gwent	Heddlu Dyfed Powys	Grange-town	Aberdâr	Ynys Môn	Cas-newydd	Glyn-ebwy	Dinbych-y-pysgod
Cyfradd Droseddu		(1)	(1)	(1)	(1)						
Cyfradd Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol											
Canfyddiadau o Ddiogelwch	(3)					(5)	(5)				
Hyder ac Ymddiriedolaeth yn yr Heddlu											(2)
CSO yn mynd at ddigwyddiadau YG /didrosedd											
Cydlyniant cymunedol	(3)					(5)	(5)				
Amlygrwydd yr Heddlu (go iawn / canfyddedig)						(6)					(4)

Ffigur 8.2 Crynodeb o Effaith a Newid

(1) Ychydig gynnydd yn y duedd linellol ers mis Ionawr 2012, ddim i'w briodoli i'r buddsoddiad yn y CSOs. (2) Data gwan. (3) CSOs yn cael mwy o effaith mewn ardaloedd sydd â mwy o amddfadedd. (4) Cynnydd yn amlygrwydd y CSOs, ond ddim yn hollol gadarnhaol gan fod y cyhoedd yn gweld hyn ar draul Cwnstabiail Heddlu. (5) Canfyddiadau cadarnhaol ond dim gwaelodlin i fesur y newid. (6) Canfyddiadau wedi'u pegynnu ond dim gwaelodlin i fesur y newid.

Mae crynhoi'r data allweddol yn y modd yma'n bwrw goleuni ar nifer o ganfyddiadau allweddol.

- Effaith fwyaf cyson y rhaglen oedd bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yn ymgymryd â mwy o rôl wrth ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol a galwadau didrosedd am wasanaeth gan aelodau o'r cyhoedd. Effaith 'ddirprwyo' yw ein label ar hon.
- Mewn cyd-destun economaidd lle mae nifer y swyddogion heddlu wedi cael eu lleihau, mae'r effaith ddirprwyo'n ddatblygiad pwysig a phellgyrhaeddol o bosib o ran trefnu plismona.
- Bu'r ymchwil yn brwydro i gael data dibynadwy ynglŷn â'r effeithiau ar gydlyniant cymunedol a chanfyddiadau o ddiogelwch. Roedd Llywodraeth Cymru wedi adnabod y ddau yn eu dibenion wrth roi'r grant i'r heddluoedd.
- Ceir rhywfaint o dystiolaeth o gynnydd yn amlygrwydd yr heddlu'n cael ei alluogi gan y capasiti ychwanegol. Fodd bynnag, cymedrolwyd yr effeithiau oherwydd, ar lefel leol iawn, er bod pobl yn gwerthfawrogi'r Swyddogion Cymorth Cymunedol, gallant gael eu gweld fel 'eilyddion' i swyddogion heddlu 'go iawn'.
- Canfyddiad pwysig mewn cysylltiad ag amlygrwydd yr heddlu yw presenoldeb 'effaith ddog'n'. Mae prinder presenoldeb amlwg o du'r heddlu'n cael canlyniadau negyddol i ddiogelwch cymdogaethau. I'r un graddau, fodd bynnag, gall gweld gormod o heddlu mewn ardal fod yn niweidiol oherwydd ei fod yn peri i bobl bryderu am beth sy'n digwydd i gyfiawnhau'r presenoldeb hwn. Mae'n bwysig bod maint ac ansawdd presenoldeb yr heddlu'n cael eu teilwra'n ofalus i'r angen lleol.

9 Casgliadau ac Argymhellion

Mae'r dadansoddiad a nodir yn yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru a'i fwriad a sut cafodd ei ddarparu gan ddogfennu rhai o'r effeithiau y gellir eu priodoli iddo.

Lluniwyd y polisi ei hun gan Lywodraeth Cymru i sicrhau elfen o hyblygrwydd ac addasrwydd o ran ei weithredu gan yr heddluoedd cyfranogol. Roedd creu gofod clir i'r prosesau gweithredu gael eu teilwra i amgylchiadau ac anghenion lleol yn bwysig o ran cynnal egwyddor annibyniaeth weithredol yr heddlu y cytunwyd arni gan yr holl randdeiliaid. Hefyd, hwylusodd ddefnyddio adnodd y Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol mewn ffyrdd oedd yn ymateb i amodau lleol 'ar lawr gwlad' mewn cymunedau. Ar yr un pryd, serch hynny, bu fframio'r polisi fel hyn yn gyfrifol am nifer o ganlyniadau pwysig 'ymhellach i lawr':

- Dyfeisiodd y pedwar heddlu wahanol strategaethau i leoli a rhoi cyfeiriad i'r Swyddogion Cymorth Cymunedol newydd. Oherwydd bod y swyddogion newydd yn cael eu hintegreiddio i staff yr heddlu, mae'n anodd iawn ynysu a datgyfuno pa effeithiau y gallai'r gwahanol ddulliau hyn fod wedi'u cael a pha mor briodol a llwyddiannus oeddent.
- Golygai gadael i'r pedwar heddlu ddewis sut i ddefnyddio'r swyddogion ychwanegol fod amcanion a disgwyliadau gwahanol braidd wedi'u pennu ar gyfer y rhaglen ar draws Cymru.
- Roedd yr union wasanaethau a ddarparwyd a'r tasgau a wnaed mewn cymunedau gan y Swyddogion Cymorth Cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn bur wahanol ar draws yr heddluoedd ac o fewn safleoedd astudiaethau achos unigol, gan adlewyrchu'r penderfyniadau a dewisiadau strategol a wnaethpwyd.
- Mae'n fwy anodd bod yn gadarn wrth asesu effeithiau'r polisi'n gyffredinol oherwydd cynllun y polisi a'r ffaith bod y swyddogion yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd gwahanol iawn mewn gwahanol gymunedau ac yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau.

9.1 Casgliadau

Yn gyffredinol, casgliadau'r ymchwil yw:

- Ychwanegodd buddsoddiad Llywodraeth Cymru 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol at gapasiti heddluoedd Cymru. Mae'r swyddogion hyn wedi ymgymryd â chyfrifoldeb cynyddol dros ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anhrefn arall, yn unol â disgwyliadau'r cyhoedd.
- Cyfyngwyd yr effeithiau a ddaeth yn sgil y capasiti ychwanegol hwn gan ffactorau allanol. Yn fwyaf nodedig, y dadfuddsoddiad gan lywodraeth ganol mewn plismona a'r gostyngiadau yn nifer y swyddogion heddlu o ganlyniad. Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru wedi gwrthbwysu rhai o'r effeithiau hyn gan olygu nad yw lefelau staffio heddlu drwyddi draw yng Nghymru wedi gostwng yn yr un ffordd â Lloegr. Drwy hyn, mae polisi Llywodraeth Cymru wedi ailwampio rhai agweddau cyhoeddus ar blismona yng Nghymru.
- Roedd galwadau ac anghenion cymunedau penodol mewn ardaloedd penodol yn golygu bod canolbwynt gweithgareddau Swyddogion Cymorth Cymunedol yn bur wahanol. Adwaenir cyfuniad o bobl, lleoedd, problemau a pholisïau fel y penderfynyddion allweddol a ddylanwadodd ar yr hyn a gyflawnwyd go iawn gan y polisi ar lawr gwlad.
- Ceir gwahaniaeth cysyniadol ar lefel uchel rhwng modelau 'Cymorth i'r Heddlu' a 'Chymorth Cymunedol' o'r rôl. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu mai lle y cyfunir elfennau allweddol o'r ddau fodel delfrydol y bydd y canlyniadau gorau i gymunedau'n codi.
- O ran effeithiau'r Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol, mae'r dystiolaeth yn gymysg ar draws gwahanol gymunedau, cyd-destunau a dangosyddion. Ond oherwydd i rôl y Swyddogion Cymorth Cymunedol gael ei hamgylfred mewn ffyrdd gwahanol iawn mewn gwahanol rannau o Gymru, roedd bob amser yn annhebygol y byddai pob ardal yn elwa ar draws yr holl ddangosyddion allweddol. Hefyd, roedd meysydd megis canfyddiadau ynglŷn â diogelwch a chydlyniant cymunedol y gellir credu bod capasiti ychwanegol y Swyddogion Cymorth Cymunedol wedi dylanwadu arnynt, ond y gwir amdani yw nad oedd dystiolaeth gadarn ar gael.

- Ceir rhywfaint o dystiolaeth empirig i awgrymu bod y Swyddogion Cymorth Cymunedol wedi darparu presenoldeb heddlu ychwanegol yn y cymunedau sydd â'r amddifadedd mwyaf.
- Ceir rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod y cyhoedd wedi sylwi ar gynnydd ym mhresenoldeb ac amlygrwydd yr heddlu mewn llawer o ardaloedd.

9.2 Argymhellion

Ar sail tystiolaeth yr ymchwil, gellir adnabod sawl argymhelliad i Lywodraeth Cymru a'r heddlu.

1. Byddem yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n estyn y cyfnod ar gyfer dadansoddi effaith y polisi. Byddai hyn yn galluogi data o drydedd don Omnibws Beaufort a data dilynol o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr i gael eu dadansoddi. Byddai hyn yn ychwanegu cryn werth at ddeall effeithiau canfyddiadol ehangach yr ymyriadau. Roedd y cyfnod a roddwyd i'r asesu, fel y'i pennwyd yn wreiddiol, braidd yn gywasgedig.

2. Gall gwell diogelwch cymunedol gwmpasu llawer o bethau ac efallai y bydd Llywodraeth Cymru am roi rhywfaint o ystyriaeth i ba agweddau ar ddiogelwch cymunedol y mae ganddynt ddiddordeb arbennig yn eu hyrwyddo. Bydd y diffiniad manylach hwn yn helpu i sicrhau gwerth am arian gan eu buddsoddiadau yn y dyfodol.

3. Yn gysylltiedig â hyn, mae angen mewnbwn mwy o lawer yn y cyfnodau cynllunio ynglŷn â sut mae datblygiadau polisi cymhleth fel hyn yn cael eu hasesu a'u gwerthuso. Mae diffyg safleoedd rheoli ffurfiol a'r mesuriadau gwaelodlin priodol wedi cyfyngu ar y ddealltwriaeth a geir o ran a yw'r buddsoddiad a wnaed wedi gweithio a pha fuddion y mae wedi'u sicrhau i gymunedau yng Nghymru.

4. Casglwyd cronfa dystiolaeth sylweddol ynglŷn â gweithgareddau Swyddogion Cymorth Cymunedol i ategu'r ymchwil hon. Yn wir, tybiwn mai dyma'r ymchwiliad mwyaf cynhwysfawr i waith ac effeithiau'r Swyddogion a wnaed erioed. O'r herwydd, byddem yn argymhell bod heddluoedd yn defnyddio'r dystiolaeth hon i ddeall yn well 'beth sy'n gweithio' o safbwynt y cyhoedd o ran sut mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yn cael eu lleoli a'u defnyddio.

5. Mewn perthynas â'r pwynt uchod, mae lle i rywfaint o drafodaeth ynglŷn â tharo'r cydbwysedd iawn rhwng yr elfennau 'cymorth i'r heddlu' a 'chymorth cymunedol' yn rôl y Swyddogion Cymorth Cymunedol. Yr hanfodion a nodir yma yw presenoldeb amlwg; ymgysylltu rhagweithiol ac ymdrin ag anhrefn.

6. Fel rhan o'r ymchwil hon, bu'n rhaid i ni adolygu nifer o offerynnau arolygu sydd wedi'u llunio a'u defnyddio gan heddluoedd i ddal barn y cyhoedd a dioddefwyr. Nid oedd sawl un o'r rhain yn 'addas i'r diben' o ran ei gynllun na'i weithredu. Byddem yn argymhell bod ACPO Cymru yn edrych ar y posibilrwydd o gytuno ar set o offeryniaeth sydd wedi'i chysoni y gallai holl heddluoedd Cymru ei defnyddio mewn ffordd gyson. Byddai hyn yn debygol o leihau costau a chynyddu dealltwriaeth o beth sydd a beth sydd ddim yn gweithio i wahanol gymunedau yng Nghymru.